Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Addysg Oedolion Cymru / Adult Learning Wales
**7 Iard y Cowper**
**Heol Curran**
**Caerdydd**
**CF10 5NB**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Addysg Oedolion Cymru / Adult Learning Wales

Addysg Oedolion Cymru / Adult Learning Wales yw'r unig ddarparwr cenedlaethol ar gyfer dysgu oedolion yng Nghymru. Mae ganddo statws sefydliad addysg bellach.

Daeth y darparwr i rym yn 2016 o ganlyniad i uno Coleg Harlech a Chymdeithas Addysg y Gweithwyr (CAG) y Gogledd gyda Chymdeithas Addysg y Gweithwyr De Cymru, ac yn ddiweddarach Cymdeithas Addysg y Gweithwyr De Cymru gyda Choleg Cymunedol Cymdeithas Gristnogol Dynion Ifanc (YMCA) Cymru.

Dechreuodd y Prif Weithredwr yn ei swydd yn 2017. O dan arweiniad y Prif Weithredwr a'r Cyngor, mae'r darparwr wedi ailstrwythuro'n sylweddol i alluogi'r sefydliad i ymateb i heriau ariannol, i leihau'r uwch dîm rheoli i dri o bobl ar ôl uno, a chyfeirio'r adnoddau a ryddheir i ble mae eu hangen fwyaf.

Mae Addysg Oedolion Cymru / Adult Learning Wales yn galluogi tua 13,000 o ddysgwyr bob blwyddyn i ennill cymwysterau trwy 30,000 o weithgareddau dysgu ledled Cymru. O'r nifer hon, nodwyd bod 7% o ddysgwyr yn siarad Cymraeg yn rhugl, a bod 12% yn ddysgwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl. Mae'r darparwr yn trefnu cwricwlwm ar gyfer dysgwyr sydd ag un nodwedd warchodedig neu fwy, sy'n economaidd anweithgar ac sydd anoddaf eu cyrraedd. Mae pum deg tri y cant o ddysgwyr yn byw mewn 40% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, ac mae 25% o ddysgwyr yn ddi-waith neu'n economaidd anweithgar. Seilir yr holl ddarpariaeth yn y gymuned i ddiwallu anghenion dysgwyr mewn cymunedau a gweithleoedd. Mae ganddi ffocws penodol ar y rheiny sydd wedi colli allan ar ddysgu neu'r rheiny sydd angen ail gyfle. Mae'n gweithio gyda thros 200 o bartneriaid a chyflogwyr, gan gynnwys Cyngres Undebau Llafur Cymru (TUC Cymru), i gynnig darpariaeth hanfodol i wella medrau, er enghraifft mewn medrau llythrennedd, rhifedd, medrau digidol a Saesneg fel ail iaith, i helpu mynd i'r afael â thlodi yn y gwaith.

Mae Addysg Oedolion Cymru / Adult Learning Wales yn darparu cyfle i ddysgwyr gael addysg o unedau lefel mynediad i gymwysterau medrau sylfaenol, yn ogystal â chymwysterau ar lefel 2 a lefel 3 ar gyfer oedolion o bob cefndir. Mae'n cyflwyno cymwysterau proffesiynol lefel uwch mewn gwaith ieuenctid a gwaith chwarae cymunedol, hyfforddiant athrawon a chwnsela. Mae Addysg Oedolion Cymru / Adult Learning Wales yn canolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae wyth deg dau y cant o ddarpariaeth a gyflwynir trwy gyllid Llywodraeth Cymru wedi'i hachredu, ac 18% yn ddarpariaeth heb ei hachredu. Mae'r darparwr yn gweithio yn yr holl bartneriaethau medrau rhanbarthol ac mewn cydweithrediad â'r 15 o bartneriaethau dysgu oedolion rhanbarthol eraill ledled Cymru.

## Crynodeb

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Gall llawer o ddysgwyr gymhwyso eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth y gwnaethant eu caffael yn ddiweddar, yn briodol yn eu bywydau bob dydd a'u gwaith. Mae gan bron bob un o'r dysgwyr agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae'r rhan fwyaf o leoliadau yn hygyrch i ddysgwyr, ac maent yn mynychu dosbarthiadau'n rheolaidd, er y gallai fod rhaid i lawer o ddysgwyr deithio'n eithaf pell i gyrraedd y dosbarth. Mae llawer o ddysgwyr hŷn yn elwa ar fynychu dosbarthiadau y maent yn datblygu medrau newydd ac yn cymdeithasu ynddynt.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid a chynorthwywyr cymorth yn meddu ar ddealltwriaeth gref o ddyheadau ac anghenion eu dysgwyr. Maent yn cyflwyno sesiynau ffocysedig sy'n rhoi ystyriaeth dda i anghenion a diddordebau unigol. Mae'r darparwr yn cyflwyno ystod eang o gyrsiau. Mae'n gweithio'n dda gyda darparwyr eraill i gyflwyno cwricwlwm sy'n mynd i'r afael ag anghenion unigol, lleol a rhanbarthol. Mae'r darparwr yn gweithio'n dda gyda'i bartneriaid i ddarparu cymorth cyffredinol, effeithiol i'r rhan fwyaf o ddysgwyr, ac i ddysgwyr sy'n agored i niwed neu'r rheiny sydd dan anfantais yn benodol. Fodd bynnag, mae argaeledd a darpariaeth cymorth i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn amrywio ar draws cyrsiau ac ar hyd rhanbarthau, ac mae ychydig bach iawn o bryderon ynghylch diogelu i fynd i'r afael â nhw.

Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth wedi gweithio'n effeithiol gyda rhanddeiliaid i ddatblygu gweledigaeth glir ar gyfer Addysg Oedolion Cymru / Adult Learning Wales. Mae aelodau'r Cyngor yn meddu ar ddealltwriaeth fanwl o'r sefydliad, ac maent yn darparu her a chymorth cadarn. Fodd bynnag, nid yw prosesau hunanwerthuso'r darparwr wedi'u datblygu'n ddigonol ac nid oes digon o gyfleoedd i diwtoriaid rannu arfer ac adnoddau.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwelliant** |

## Argymhellion

A1 Mynd i'r afael â'r pryderon ynghylch diogelu a godwyd yn ystod yr arolygiad

A2 Gwella trylwyredd prosesau hunanwerthuso a chynllunio i sicrhau bod yr holl feysydd i'w datblygu yn cael eu nodi ac yr eir i'r afael â nhw yn llawn

A3 Gwella'r ffyrdd y gall tiwtoriaid rannu arfer ac adnoddau

A4 Gwella cymorth ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd y darparwr.

Bydd Estyn yn gwahodd y darparwr i baratoi astudiaeth achos ar ei waith mewn perthynas â chaffael medrau hanfodol ymarferol tra'n meithrin dealltwriaeth o fywyd a diwylliant Cymru a chydlyniad cymunedol, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr ar gyrsiau Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE) yn gwneud cynnydd cryf o ran datblygu eu medrau Saesneg. Mewn dosbarthiadau lefel mynediad, mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn siarad ac yn darllen brawddegau syml yn hyderus. Maent yn galw geirfa i gof, fel rhannau o’r corff, yn dda ac maent yn strwythuro cwestiynau’n gywir gan ddefnyddio sbardunau sy’n cael eu rhoi gan y tiwtor. Mae ychydig iawn o ddysgwyr ar y lefel hon yn gwneud cynnydd cryf iawn, ac maent yn magu hyder yn gyflym wrth siarad ac ysgrifennu brawddegau syml.

Mewn dosbarthiadau SSIE mwy datblygedig, mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn galw *genres* ysgrifennu i gof yn dda, a gallant esbonio’n glir sut mae’r arddull yn bodloni diben yr ysgrifennu. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn siarad Saesneg yn gymharol rugl gydag ynganiad a goslef gywir. Gall y rhan fwyaf o ddysgwyr datblygedig lunio eu nodiadau eu hunain i gynllunio parti, priodas neu wyliau. Gallant ysgrifennu brawddegau’n gywir gan ddefnyddio ystod eang o eirfa yn seiliedig ar eu nodiadau.

Mae ychydig o ddysgwyr yn elwa’n dda iawn ar gyrsiau cymhwysol sy’n helpu datblygu medrau eraill a gwybodaeth, fel theori gyrru, yn ogystal â datblygu eu Saesneg. Ar y cyrsiau hyn, mae dysgwyr yn ymarfer ac yn datblygu eu medrau darllen a siarad trwy nodi peryglon gyrru ac adnabod arwyddion ffordd dwyieithog.

Mewn ychydig o gyrsiau llythrennedd, mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cryf tuag at eu nodau dysgu unigol. Ar gyrsiau lefel uwch, mae dysgwyr yn datblygu eu medrau ymchwil yn dda trwy astudio am y testunau a ddewiswyd ganddyn nhw yn unigol cyn y dosbarth. Mae hyn yn helpu’r dysgwyr i siarad yn wybodus am destunau sydd o ddiddordeb iddynt neu sy’n berthnasol i’w bywydau bob dydd neu’u gwaith. Mae dysgwyr yn ateb cwestiynau’n effeithiol ac yn estynedig gan ddefnyddio ystod dda o eirfa a strwythurau gramadegol.

Mewn ychydig iawn o ddosbarthiadau ar draws gwahanol gyrsiau, mae dysgwyr yn dangos bod ganddynt fedrau rhifedd priodol. Er enghraifft, pan fyddant yn cwblhau ymarferion ar siopa ar gyfer prydau teuluol, mae llawer o ddysgwyr yn dangos bod ganddynt ddealltwriaeth glir o adio a chyllidebu syml.

Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cadarn o ran datblygu eu medrau digidol o ystod eang o fannau cychwyn. Mae dysgwyr sy’n dechrau gyda medrau digidol cyfyngedig iawn yn ymarfer tasgau sylfaenol rheoli ffeiliau, ac yn dysgu llywio trwy ystod o systemau gweithredu ar liniaduron, llechi cyfrifiadurol a ffonau symudol. Mae dysgwyr mwy datblygedig yn datblygu medrau mewn prosesu geiriau, gan ddefnyddio taenlenni a datblygu cronfeydd data syml. Er enghraifft, mewn dosbarth lefel mynediad yn astudio cronfeydd data, mae dysgwyr yn darganfod eu defnydd posibl mewn rheoli rhestrau aelodaeth ar gyfer clwb bowls neu gadw mewn cysylltiad ag etholwyr cynghorydd cymuned neu fuddiolwyr elusen awtistiaeth.

Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, caiff y gyfradd y mae dysgwyr yn gwella eu medrau digidol mewn dosbarthiadau arni ei chyfyngu gan ddulliau addysgu nad ydynt yn ymestyn dysgwyr gallu uwch. Mewn ychydig o achosion, nid yw dysgwyr yn

gwneud digon o ddefnydd o'u dyfeisiau eu hunain mewn gwersi, sy'n golygu eu bod yn ei chael yn anodd cymhwyso'r medrau a addysgwyd yn y wers i'w sefyllfa eu hunain.

Mae ychydig o ddysgwyr sy'n medru'r Gymraeg yn siarad Cymraeg mewn dosbarthiadau gyda'u cyfoedion. Mae ychydig o ddysgwyr yn defnyddio cyfarchion a thermau Cymraeg syml gyda'u tiwtoriaid a gyda'u cyfoedion. Fodd bynnag, ar y cyfan, nid yw dysgwyr yn datblygu, nac yn ymestyn, eu medrau Cymraeg presennol trwy eu rhaglenni dysgu.

At ei gilydd, ar draws ystod y rhaglenni a gynigir gan y darparwr, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd tymor byr a thymor hwy yn eu hastudiaethau, yn datblygu medrau'n dda ac yn cwblhau eu cyrsiau a'u cymwysterau'n llwyddiannus ar gyfraddau da. Mae llawer o ddysgwyr yn ennill achrediad trwy eu hastudiaethau.

Yn 2017-2018, fe wnaeth dysgwyr gwblhau eu cymwysterau yn llwyddiannus, ac ennill eu cymwysterau ar gyfradd o 91%, yn unol â'r cymharydd cenedlaethol. Mae hyn yn cynrychioli tuedd o welliant dros y tair blynedd ddiwethaf.

Yn ôl data'r darparwr ei hun, mae tua 70% o ddysgwyr yn newydd i'r darparwr o flwyddyn i flwyddyn. O'r rheiny sy'n dychwelyd i'r darparwr ar ôl astudio cyrsiau yn y flwyddyn flaenorol, mae llawer o ddysgwyr yn astudio'n briodol ar yr un lefel neu ar lefel uwch na'u cyrsiau blaenorol.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn rhagweithiol a brwdfrydig ynglŷn â'u dysgu ac yn cymryd rhan yn dda mewn sesiynau. Yn aml, mae natur dysgwyr sy'n oedolion yn golygu bod ganddynt ymrwymiadau teuluol ac amgylchiadau personol a allai fod yn rhwystrau rhag mynychu. Serch hynny, mae llawer o ddysgwyr yn mynychu eu dosbarthiadau'n rheolaidd ac yn teithio pellterau hir, yn aml ar gludiant cyhoeddus, i gyrraedd eu dosbarthiadau. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn rhoi gwybod i diwtoriaid pan na fyddant yn gallu mynychu.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn teimlo'n hapus, yn ddiogel ac yn saff mewn gwersi a grwpiau. Mae dysgwyr yn groesawgar, yn hyderus ac yn barod i drafod eu dysgu a'u hamgylchiadau'n glir ac yn feddylgar gyda phobl eraill. Mae dysgwyr o wahanol alluoedd yn cynorthwyo ei gilydd yn sensitif ac mae llawer ohonynt wedi ffurfio cyfeillgarwch sy'n parhau â'r cymorth hwn mewn meysydd eraill o'u bywyd. Mewn dosbarthiadau SSIE, mae dysgwyr o gefndiroedd a diwylliannau gwahanol iawn wedi dod yn ffrindiau y tu allan i'w dysgu ffurfiol ac maent yn cynorthwyo'i gilydd â materion bywyd bob dydd, gan gynnwys materion rhianta.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn defnyddio eu medrau gwell a'u cariad newydd at ddysgu i helpu eu plant â gwaith ysgol. Mae hyn yn gwella profiad a dyheadau eu teuluoedd ehangach.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ar bob lefel yn cynyddu eu llythrennedd ac yn teimlo'n fwy hyderus ynglŷn â deall gwahanol fathau o lenyddiaeth, llenwi ffurflenni a delio â dogfennau swyddogol. Hefyd, maent yn gwella eu medrau digidol ac yn magu hyder wrth ddefnyddio technoleg gwybodaeth. Gallant ddeall gweithgareddau digidol eu plant a'u hwyrion yn well, gan ddefnyddio negeseua, e-bost a chyfathrebu trwy fideo.

Mae llawer o ddysgwyr yn ennill medrau bywyd gwerthfawr. Maent yn cynyddu eu hyder ac yn dod yn gliriach ynglŷn â'r camau y mae angen iddynt eu cymryd i gyflawni eu nodau dysgu a'u nodau bywyd. Mae llawer o ddysgwyr yn awyddus i barhau â'u dysgu ar lefel uwch, neu ar gyrsiau mewn gwahanol bynciau ar lefel debyg. Mae ychydig o ddysgwyr sy'n astudio ar lefelau uwch yn mynd ymlaen i gyrsiau addysg uwch fel nyrsio, addysgu a throseddeg.

Ceir llawer o enghreifftiau o ddysgwyr sydd wedi newid eu bywydau'n gyfan gwbl o ganlyniad i fynychu dosbarth. Daw llawer o ddysgwyr i'w cwrs o ardaloedd difreintiedig ac maent yn wynebu problemau personol heriol. Yn aml, mae eu cyflawniad academaidd yn isel a'u hunan-barch yn wael. Maent yn mynychu cyrsiau sy'n gwella eu cyflogadwyedd ac yn magu hyder i wneud cais am waith, lle bo'n briodol. Mae dysgwyr eraill yn cynyddu eu medrau i wella eu perfformiad yn eu swydd bresennol, i geisio cael dyrchafiad neu'u helpu yn eu rolau gwirfoddoli.

O ganlyniad i'w dysgu, mae llawer o ddysgwyr yn mynd ymlaen i fynychu dosbarthiadau nad ydynt yn cael eu hariannu'n uniongyrchol gan gyllid craidd Llywodraeth Cymru. Mae'r dosbarthiadau hyn, a ddarperir mewn partneriaeth ag amrywiaeth o asiantaethau, yn cyfoethogi bywydau dysgwyr ac yn ehangu eu gorwelion. Maent yn cyflwyno dysgwyr i gelf a cherddoriaeth, llenyddiaeth, hanes a gwleidyddiaeth. Mae ymweliadau a theithiau rhyngddiwylliannol ag amgueddfeydd, y Senedd a senedd San Steffan yn helpu integreiddio dysgwyr o wahanol genedligrwydd a chredoau yn eu cymunedau. Mae llawer o ddysgwyr sy'n mynychu dosbarthiadau crefft yn elwa ar drafod a rhannu syniadau gyda phobl eraill, ac o ganlyniad yn lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd ac yn cyflymu eu hadferiad o salwch, er enghraifft problemau iechyd meddwl. Mae hyn yn arbennig o wir am ddysgwyr hŷn, a'r rheiny o grwpiau ymylol ac o gymunedau ynysig.

Mae gwaith partneriaeth â sefydliadau eraill, fel sefydliadau gwirfoddol, hefyd yn helpu dysgwyr i ymgymryd â chyfranogi dinesig, yn galluogi dysgwyr ag anableddau i gymryd rhan yn llawnach mewn addysg a gweithgareddau diwylliannol, ac yn gwella medrau arwain ar gyfer menywod ifanc. Mae'r profiadau hyn hefyd yn helpu codi dyheadau dysgwyr ac yn ysgogi newid ym mywydau a chymunedau dysgwyr.

Fel sefydliad aelodaeth, mae ymgysylltiad democrataidd dysgwyr yn cyfrannu at ddatblygu dinasyddiaeth weithgar. Cynigir aelodaeth gychwynnol am ddim i ddysgwyr. Mae ychydig o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd lleol a rhanbarthol a fforymau dysgwyr. Daw ychydig ohonynt yn aelodau gweithgar o gangen Cymdeithas Addysg y Gweithwyr neu maent yn mynychu darlithoedd y gangen a gweithgareddau dysgu eraill. Mae'r dysgwyr hyn yn elwa ar gymryd rhan mewn dadleuon gwleidyddol diduedd ehangach i ddatblygu eu medrau democrataidd. Cânt gyfle i ddysgu am hanes lleol a diwylliant, trafod polisïau Llywodraeth Cymru, a chyfrannu at faterion strategol Addysg Oedolion Cymru / Adult Learning Wales. Fodd bynnag, nid yw'r gweithgareddau hyn yn gyson ledled Cymru, ac nid oes llawer o'r math hwn o weithgarwch yng Ngogledd Cymru.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae bron pob un o'r tiwtoriaid yn meddu ar gyfoeth o brofiad ac arbenigedd. Mae ganddynt wybodaeth bynciol gref, cymwysterau perthnasol a phroffesiynol ac maent yn deall eu maes pwnc yn dda.

Mae gan y rhan fwyaf o diwtoriaid gynlluniau cynhwysfawr, ac maent yn cyflwyno sesiynau addysgu ffocysedig ag awyrgylch cadarnhaol a phwrpasol. Mae bron pob un o'r tiwtoriaid a'r cynorthwywyr cymorth yn meddu ar ddealltwriaeth fanwl o'u dysgwyr, ac maent yn rhoi ystyriaeth dda i'w hanghenion, eu galluoedd a'u diddordebau unigol yn ystod eu dosbarthiadau. Maent yn cefnogi dysgu'n dda. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn defnyddio technegau holi priodol yn dda i wirio dealltwriaeth dysgwyr. Mae bron pob un o'r tiwtoriaid yn dangos rheolaeth ystafell ddosbarth effeithiol sy'n briodol i ystafelloedd dosbarth dysgu oedolion. Gwnânt yn siŵr fod mwyafrif y dysgwyr yn ymgysylltu'n llawn â'u tasgau. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae tiwtoriaid yn defnyddio dulliau addysgu sy'n helpu dysgwyr i gynhyrchu gwaith ysgrifenedig annibynnol sydd wedi'i gyflwyno'n dda ac o safon uchel. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn defnyddio ystod eang o adnoddau addysgu defnyddiol ac ysgogol, ond yn gyffredinol, nid yw adnoddau ar gael yn ddwyieithog.

Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o achosion, nid yw cynllunio tiwtoriaid yn canolbwyntio'n ddigon clir ar anghenion dysgu'r unigolyn. Mae tiwtoriaid yn rhoi gormod o gyfarwyddyd i ddysgwyr, ac yn arddweud brawddegau iddyn nhw eu hysgrifennu. Mae cyflymdra'r wers yn rhy araf, ac mae dysgwyr mwy abl yn colli diddordeb.

Mae llawer o diwtoriaid yn fedrus wrth ymgorffori medrau llythrennedd a medrau digidol yn dda yn y gwersi. Er enghraifft, mae tiwtoriaid yn annog dysgwyr sy'n cymryd rhan mewn dosbarthiadau theori prawf gyrru SSIE i ddarllen y testun mewn llawlyfrau gyrrwr ar goedd. Caiff dysgwyr adborth anogol ac adeiladol ar ynganu, strwythur brawddegau a geirfa. Fodd bynnag, mae ychydig iawn o diwtoriaid yn defnyddio iaith a therminoleg sy'n rhy gymhleth, ac o ganlyniad, nid yw dysgwyr yn deall yn llawn yr hyn y mae angen iddynt ei wneud.

Mae'r darparwr yn cyflwyno ystod eang o gyrsiau sy'n cynnwys SSIE, medrau hanfodol, datblygiad personol, llythrennedd a rhifedd, medrau digidol, mynediad at addysg uwch a hyfforddiant gwaith ieuenctid, yn ogystal â gweithredu cwricwlwm yn seiliedig ar anghenion lleol a rhanbarthol a nodwyd, sydd wedi'i gynllunio'n dda i ddiwallu anghenion dysgwyr a chymunedau. Mae'r darparwr yn gweithio'n effeithiol gydag ystod eang o sefydliadau partner i ymgysylltu â grwpiau dysgwyr sy'n cael blaenoriaeth. Mae'r darparwr yn cyflwyno ystod eang o gyrsiau undydd, tymor byr a thymor hwy sy'n darparu dewisiadau gwerthfawr i ymgysylltu â dysgwyr sy'n anodd eu cyrraedd neu'r rheiny y mae angen iddynt ddiweddaru rhai medrau, er enghraifft mewn coginio sylfaenol a hyfforddiant cymorth cyntaf.

Mae'r rheolwyr rhanbarthol a swyddogion datblygu'r cwricwlwm yn cynllunio darpariaeth yn effeithiol o fewn eu hardaloedd daearyddol eu hunain. Mae'r rhan fwyaf o leoliadau yn addas ar gyfer dysgu, ac maent o fewn cyrraedd hawdd i ganol trefi ar lwybrau bysiau, ac mae ganddynt gyfleusterau digonol ar gyfer parcio ceir. Mae arweinwyr yn rhoi ystyriaeth dda i anghenion y gymuned leol ac mae ganddynt ymreolaeth i gytuno ar y cwricwlwm a modelau cyflwyno gydag ystod eang o bartneriaid. Fodd bynnag, nid ymgymerir â mentrau cynllunio ar y cyd rhwng holl swyddogion datblygu'r cwricwlwm a phartneriaid dysgu oedolion eraill yn gyson ar draws yr holl ranbarthau.

Mae'r darparwr yn canolbwyntio'n briodol ar gyflwyno darpariaeth i ddysgwyr ag anableddau dysgu dwys, problemau iechyd meddwl a SSIE, yn unol â'i genhadaeth

a'i weledigaeth. Mae'r darparwr yn gweithio gydag ystod eang o bartneriaid arbenigol, fel Women Connect, sy'n darparu ystod o wasanaethau i fenywod, ac Oasis sy'n gweithio gyda ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Mae'r darparwr yn gweithio'n dda gyda phartneriaid y Ganolfan Byd Gwaith leol i sicrhau bod dysgwyr yn elwa ar ystod eang o gyfleoedd swydd presennol. Er enghraifft, mae dysgwyr sy'n ddi-waith yn mynychu cyrsiau magu hyder a datblygiad personol i'w paratoi â medrau cyfweld.

Mae llawer o diwtoriaid yn ymgorffori llythrennedd a rhifedd yn dda wrth iddynt gyflwyno eu cyrsiau. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, mae tiwtoriaid yn colli cyfleoedd sy'n digwydd yn naturiol ar gyfer datblygu medrau.

Nid yw'r ffordd y caiff medrau Cymraeg eu cyflwyno wedi'i datblygu'n ddigonol. Er bod tiwtoriaid yn cyflwyno Cymraeg sylfaenol iawn mewn sesiynau yn achlysurol, nid oes digon o diwtoriaid yn ehangu gwybodaeth dysgwyr am y Gymraeg a'i diwylliant, a fyddai'n gwella cyflogadwyedd ymhellach, ac yn cyfrannu at ddealltwriaeth o gymunedau Cymraeg, a'u cynaliadwyedd.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol ac angen gwelliant**

Mae Addysg Oedolion Cymru / Adult Learning Wales yn gweithio'n dda gyda sefydliadau partner i ymgysylltu â dysgwyr ar gyrsiau mewn lleoliadau hygyrch lle maent yn teimlo'n ddiogel. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn olrhain presenoldeb a chyfranogiad dysgwyr yn effeithiol a defnyddiant wybodaeth wedi'i chyflenwi gan ddysgwyr ar y ffurflen gofrestru, neu o'u harsylwadau eu hunain yn y dosbarth, i nodi anghenion cymorth unigol. Mae'r darparwr a'i bartneriaid yn darparu cymorth cyffredinol, da i'r rhan fwyaf o ddysgwyr, yn enwedig i'r rheiny sy'n agored i niwed neu dan anfantais.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn rhoi cymorth defnyddiol a gwerthfawr i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn eu dosbarthiadau. Er enghraifft, maent yn cynorthwyo dysgwyr sy'n ddyslecsig trwy wneud addasiadau priodol i ddeunyddiau trwy ddarparu taflenni ar bapur lliw i ddiwallu anghenion unigol.

Fodd bynnag, mae argaeledd a darpariaeth cymorth ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn amrywio ar draws rhanbarthau a meysydd y cwricwlwm. Nid yw'r darparwr yn gwerthuso cymorth a ddarperir i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn rheolaidd ar draws y sefydliad cyfan i sicrhau mynediad cyfartal a chynnydd dysgwyr.

Nid yw llawer o diwtoriaid a dysgwyr yn glir ynglŷn â sut i allu elwa ar staff cymorth arbenigol, ac enghreifftiau cyfyngedig yn unig a geir o ddarparu cymorth o'r fath. Ychydig iawn o ddysgwyr sy'n elwa ar gyllid cymorth dysgu ychwanegol neu gronfeydd ariannol wrth gefn. Mae'r rheiny sy'n cael y cyllid hwn yn elwa ar gael cymorth â gwneud nodiadau yn y dosbarth, llyfrau, ffioedd gofal plant cofrestredig, ffioedd cludiant ac asesu. Mae'r darparwr wedi dechrau gweithio i wella gwybodaeth ar gyfer tiwtoriaid a dysgwyr trwy wefan newydd. Fodd bynnag, nid oedd y darparwr wedi lansio'r wefan adeg yr arolygiad.

Mae llawer o diwtoriaid yn defnyddio arweiniad y darparwr yn effeithiol i helpu dysgwyr ar gyrsiau hwy i ysgrifennu cynlluniau dysgu unigol gyda thargedau tymor byr a thymor hir. Maent yn gweithio'n effeithiol gyda dysgwyr i fonitro eu cynnydd tuag at eu cyflawni. Mae llawer o diwtoriaid yn defnyddio cynlluniau dysgu grŵp yn effeithiol, pan fo'n briodol gwneud hynny. Fodd bynnag, mae'r defnydd a wneir o'r cynlluniau dysgu hyn, a'u heffeithiolrwydd, yn anghyson rhwng tiwtoriaid, cyrsiau a rhanbarthau.

Mae mwyafrif y dysgwyr yn cofrestru ar gyrsiau trwy sefydliadau partner. Mae llawer o ddysgwyr yn cael gwybod am ddarpariaeth trwy hysbysebion yn y wasg leol, y cyfryngau cymdeithasol ac ar sail argymhellion. Yn y rhan fwyaf o achosion, caiff dysgwyr gyfnod ymsefydlu priodol ar y cwrs ac arweiniad yn ystod cyfarfod cyntaf eu dosbarth. Mae llawer o ddysgwyr yn cofrestru ar gyrsiau sy'n arwain at gymwysterau yn seiliedig ar gredydau, ac maent yn aml yn mynd ymlaen i gyrsiau pellach addas. Fodd bynnag, nid yw'r darparwr yn ei gwneud yn ddigon clir i ddysgwyr sut gallant ddefnyddio credydau cronedig tuag at ddyfarniadau yn seiliedig ar gredydau, fel tystysgrifau a diplomâu.

Mae'r darparwr wedi creu llawlyfr i ddysgwyr sy'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol. Er enghraifft, mae'n nodi'r cod ymddygiad ynghyd â gwybodaeth ddefnyddiol am faterion fel llais y dysgwr. Fodd bynnag, nid yw pob dysgwr yn derbyn y llawlyfr hwn, neu nid yw ar gael yn hawdd ar wefan y darparwr.

Mae'r darparwr yn annog ac yn cefnogi datblygiad personol dysgwyr yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt yn dda, er enghraifft trwy ddatblygu medrau dysgwyr mewn datblygiad a gallu iaith, hyder a medrau cyfathrebu. Mae ychydig o ddysgwyr mewn canolfan leol sy'n cynnig cymorth ar gyfer iechyd meddwl yn defnyddio eu medrau a ddatblygwyd yn ddiweddar i wneud cyfraniadau hynod gadarnhaol fel gwirfoddolwyr a mentoriaid cyfoedion i gynorthwyo pobl eraill yn eu cymuned leol sydd hefyd yn wynebu problemau iechyd meddwl.

Mae llawlyfr y dysgwyr a'r cod ymddygiad yn ddefnyddiol o ran cefnogi gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o aflonyddwch a gwahaniaethu. Mewn ychydig iawn o ddosbarthiadau, mae dysgwyr yn datblygu eu dealltwriaeth yn dda o sut i aros yn ddiogel ar-lein. Er enghraifft, maent yn dysgu sut i osgoi bod yn ddioddefwyr negeseuon e-bost a negeseuon testun ariannol ffug.

Mae gan y darparwr ganllawiau clir ar gyfer delio â materion bwlio, aflonyddwch a gwahaniaethu. Mae ganddo bolisi clir ar gyfer diogelu ac mae gan y rhan fwyaf o diwtoriaid ddealltwriaeth gadarn ohono. Mae gan y darparwr ganllawiau priodol ar gyfer defnyddio gwiriadau gan y gwasanaeth datgelu a gwahardd.

Mae trefniadau'r darparwr ar gyfer diogelu yn destun pryder. Nid yw'n glir o bolisi diogelu'r darparwr sut mae'r polisi yn berthnasol pan fydd y darparwr yn gweithio mewn partneriaeth â darparwyr eraill. Hefyd, fel sefydliad addysg bellach dynodedig, mae gan y darparwr ddyletswydd statudol i gydymffurfio ag arweiniad ar Ddyletswydd Atal. Nid yw lleiafrif o staff wedi cwblhau unrhyw hyfforddiant eto am eu cyfrifoldebau o dan Atal, ac nid yw'r arweiniad ar gyfer dysgwyr a staff yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â radicaleiddio ac eithafiaeth.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwelliant**

Mae Addysg Oedolion Cymru / Adult Learning Wales yn sefydliad sy'n cael ei ysgogi gan werthoedd, sy'n rhoi'r dysgwr wrth wraidd ei waith. Mae'n gweithredu'n effeithiol yn unol ag egwyddorion democrataidd, y mae wedi'u hetifeddu gan ei sefydliadau etifeddol.

Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn cynnwys cadeirydd y cyngor, dau is-gadeirydd y cyngor, ynghyd â'r prif weithredwr, pennaeth y cwricwlwm a pherfformio a'r pennaeth gwasanaethau dysgwyr ac adnoddau. Mae'r tîm yn darparu arweinyddiaeth strategol effeithiol.

Mae'r tîm wedi gweithio'n effeithiol gyda staff, dysgwyr ac aelodau i sefydlu gweledigaeth glir ar gyfer Addysg Oedolion Cymru / Adult Learning Wales. Mae cynllun strategol newydd gyda nodau clir i sicrhau addysgu a dysgu rhagorol, codi proffil a phwysigrwydd dysgu oedolion, cydweithio ac ymgysylltu'n gryf â phartneriaid a chyflawni twf cyfrifol, yn ategu'r weledigaeth. Caiff y weledigaeth a'r cynllun strategol eu deall yn dda gan staff ar draws y sefydliad. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn cyfarfod yn rheolaidd i olrhain a monitro'r cynllun.

Mae gan aelodau'r cyngor ddealltwriaeth dda o waith y sefydliad, ac maent yn cynnig her a chymorth cadarn. Mae ei gyfarfodydd yn agored i staff, aelodau a dysgwyr pe baent yn dymuno mynychu. Mae Addysg Oedolion Cymru / Adult Learning Wales yn rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Mae'r strwythur arwain a rheoli newydd yn cefnogi gwaith Addysg Oedolion Cymru / Adult Learning Wales yn briodol. Mae'r rhan fwyaf o staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n glir ac yn eu cyflawni'n dda.

Mae rheolwyr rhanbarthol yn goruchwylio gwaith timau rhanbarthol. Ar y cyd â'r rheolwr cyflwyno cenedlaethol, maent yn cysylltu'n effeithiol â phartneriaid eraill yn y rhanbarthau, fel partneriaethau dysgu oedolion eraill, i ddarparu cyrsiau addas ac osgoi dyblygu.

Mae cydlynwyr ansawdd y cwricwlwm yn gweithio'n annibynnol ar y timau rhanbarthol ac yn sicrhau ansawdd gwaith achrededig dysgwyr yn fewnol yn effeithiol.

Mae'r grŵp cwricwlwm ac ansawdd, a arweinir gan reolwr y cwricwlwm ac sy'n cynnwys rheolwyr rhanbarthol, y rheolwr cyflwyno cenedlaethol, y rheolwr ansawdd a'r rheolwr SSIE/medrau hanfodol, yn cyfarfod bob mis i fonitro darpariaeth, trafod y gyllideb, adolygu data, rhannu gwybodaeth a datrys problemau. Mae'r cyfarfodydd hyn yn darparu cyfleoedd defnyddiol i ddatblygu arfer gyson a dealltwriaeth ar y cyd ar draws y sefydliad. O ganlyniad i ddadansoddi ystod o ddata ac ymgymryd â gweithgareddau monitro yn rheolaidd, fel ymweliadau dysgwyr, mae rheolwyr yn dechrau gweithredu'n gyflym i wella'r ddarpariaeth, yr addysgu a'r dysgu yn y meysydd y maent yn gyfrifol amdanynt. Fodd bynnag, o ganlyniad i beidio â chael cyflenwad llawn o staff tan fis Medi 2018, nid oedd y darparwr yn gallu rhoi ei raglen arsylwadau addysgu lawn ar waith yn y flwyddyn academaidd flaenorol, ac o ganlyniad, mae lleiafrif o diwtoriaid wedi teimlo nad ydynt yn cael cefnogaeth â datblygu eu medrau addysgu.

Mae'r darparwr yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i staff a thiwtoriaid, fel cynadleddau tiwtoriaid a chyrsiau ar-lein, i ddiweddaru eu gwybodaeth a'u medrau.  Fodd bynnag, nid yw'n darparu digon o gyfleoedd i diwtoriaid rannu eu harfer a'u hadnoddau, gan felly wella cysondeb yr addysgu a'r dysgu ar draws rhanbarthau.

Mae diffyg trylwyredd ym mhrosesau'r darparwr ar gyfer hunanwerthuso.  Mae hunanwerthusiadau rhanbarthol yn gadarn ac yn llywio prosesau hunanwerthuso cyffredinol y sefydliad yn briodol.  Mae gan y darparwr ddealltwriaeth resymol o'i gryfderau a'r meysydd i'w datblygu.  Fodd bynnag, nid yw prosesau hunanwerthuso yn canolbwyntio ddigon ar effaith y camau gweithredu.  Nid yw'r darparwr yn defnyddio ystod ddigon eang o dystiolaeth i amlygu meysydd i'w gwella a llywio ei werthusiadau yn llawn.

Mae'r cynllun datblygu ansawdd yn amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer gwella yn glir.  Mae'n cofnodi pwy sy'n gyfrifol am roi'r camau gweithredu hyn ar waith, pwy sy'n monitro'r camau gweithredu, a dyddiadau cwblhau.  Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, mae targedau'n rhy generig.

Mae gan y darparwr ddealltwriaeth dda o'i incwm a'i wariant.  Mae'r gostyngiad yn nifer yr uwch arweinwyr wedi galluogi'r darparwr i wyro mwy o gyllid i gyflwyno yn briodol.  Mae trefniadau cytundebol newydd gyda phartneriaid yn helpu lleihau gwariant yn effeithiol pan fu'n rhaid canslo cyrsiau wedi'u trefnu ar fyr rybudd.  Mae rheoli'r gyllideb yn ofalus wedi galluogi'r darparwr i symud oddi wrth ddiffyg yn y flwyddyn academaidd flaenorol i warged bach yn y flwyddyn bresennol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y bartneriaeth ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/04/2019